WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 709A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys David Thomas, Derwyn Owen, Matthew Coe a Sara Utley

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Yr adroddiad hwn 7

Adran 1: Archwiliad o gyfrifon 8

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd er, wrth wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater ac wedi cyflwyno adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio 8

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 11

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddangos rheolaeth gyllidebol dda ac yn parhau i fonitro cynlluniau arbedion yn effeithiol. Mae ganddo hanes da o fantoli'r gyllideb ac mae wedi gwella'r broses o gynnwys rhanddeiliad wrth gyflawni gwaith cynllunio ariannol, ond erys heriau sylweddol er mwyn mantoli'r gyllideb yn 2016-17 12

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu a chynllunio strategol yn ystod 2016, ond mae lle i wella'r broses o gyflwyno adroddiadau Cynllun Tymor Canolig Integredig a rheoli prosiectau ac mae angen mynd i'r afael â threfniadau rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyn gynted â phosibl 13

Yn gyffredinol, mae fy ngwaith ar berfformiad wedi canfod, er bod y Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i fynd i gyflawni'r argymhellion, fod angen iddo wneud hyn yn gyflymach 16

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 18

Atodiad 2 – ffi archwilio 19

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 20

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

3 Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

4 Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 13 Chwefror 2017. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: archwiliad o gyfrifon

6 Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd er, wrth wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater. Mae a wnelo'r rhain â chyfrifyddu asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn; y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus; a rhai anawsterau o ran y papurau gwaith a gyflwynwyd i'w harchwilio o ganlyniad i newidiadau staff o fewn y Bwrdd Iechyd.

7 Yn ogystal, cyflwynais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd lleol yn erbyn y dyletswyddau hyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2016-17.

8 Hefyd, deuthum i'r casgliad y paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon.

9 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2015-16. Manylaf ar y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn adran 2 o'r adroddiad hwn.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

10 Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig sydd wedi ystyried trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r materion gwella a nodwyd y llynedd. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad mewn perthynas â'r Contract Meddygon Ymgynghorol. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddangos rheolaeth gyllidebol dda ac yn parhau i fonitro cynlluniau arbedion yn effeithiol. Mae ganddo hanes da o fantoli'r gyllideb ac mae wedi gwella'r broses o gynnwys rhanddeiliad wrth gyflawni gwaith cynllunio ariannol, ond erys heriau sylweddol er mwyn mantoli'r gyllideb yn 2016-17

11 Wrth adolygu trefniadau rheoli a chynllunio ariannol y Bwrdd Iechyd, gwnaethom ganfod bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddangos rheolaeth gyllidebol dda ac yn parhau i fonitro cynlluniau arbedion yn effeithiol. Mae ganddo hanes da o fantoli'r gyllideb ac mae wedi gwella'r broses o gynnwys rhanddeiliad wrth gyflawni gwaith cynllunio ariannol, ond erys heriau sylweddol o ran mantoli'r gyllideb yn 2016-17.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu a chynllunio strategol yn ystod 2016, ond mae lle i wella'r broses o gyflwyno adroddiadau Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae angen dangos cyflymdra o ran rheoli prosiectau er mwyn mynd i'r afael â threfniadau rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyn gynted â phosibl

12 Dangosodd fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2016 fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd bwrdd. Yn ystod 2016, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd da wrth gyflawni argymhellion asesiad strwythuredig 2015, yn enwedig datblygu gwefan newydd i sicrhau bod cynlluniau a dogfennau corfforaethol allweddol ar gael i'r cyhoedd.

13 Nododd fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2016 y canlynol:

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu ei ddull cynllunio strategol gan roi trefniadau monitro effeithiol ar waith ond mae lle i wella'r broses o gyflwyno adroddiadau Cynllun Tymor Canolig Integredig ymhellach ac ehangu trefniadau rheoli prosiectau a rhaglenni.

- Mae trefniadau sicrwydd bwrdd yn parhau i aeddfedu ac mae pwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol yn gyffredinol, er bod angen mwy o amser i ymgorffori newidiadau diweddar i rai pwyllgorau.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni argymhellion 2015 ond araf fu'r cynnydd wrth gyflawni argymhellion archwilio eraill sy'n ymwneud ag argymhellion rheoli gwybodaeth a thechnoleg.

## Yn gyffredinol, mae fy ngwaith ar berfformiad wedi canfod, er bod y Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni'r argymhellion, fod angen iddo wneud hyn yn gyflymach

14 Dangosodd gwaith ar y Contract Meddygon Ymgynghorol fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gymryd camau i atgyfnerthu prosesau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, er nad oedd wedi gweithredu holl argymhellion cenedlaethol a lleol blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol eto.

15 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i gyflawni argymhellion asesiad strwythuredig 2015, gwneuthum hefyd ystyried effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd o ran ymateb i argymhellion fy archwiliad. Yn gyffredinol mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni fy argymhellion, ond mae angen i hyn gael ei wneud yn gyflymach.

16 Rydym yn gwerthfawrogi cymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

17 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn ar gyfer 2016 i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Tachwedd 2016.

18 Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004[1]. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

19 Mewn perthynas â (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd; a
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau.

20 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

21 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- adran 1: archwiliad o gyfrifon
- adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

22 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016.

23 Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2016 a sut yr aed i'r afael â hwy yn ystod yr archwiliad.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: archwiliad o gyfrifon

24 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

25 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant ac incwm.

26 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd er, wrth wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater ac wedi cyflwyno adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

27 Cafodd y datganiadau ariannol drafft eu llunio i'w harchwilio erbyn y terfyn amser cytûn sef 29 Ebrill 2016 ac unwaith eto roeddent o safon dda. Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau sicrhau ansawdd o ran y datganiadau ariannol a cheir lefel uchel o waith craffu gan y Pwyllgor Archwilio. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

28 Yn 2014-15 gwnaethom nodi ein bod wedi wynebu peth anhawster wrth gael ymatebion a phapurau gwaith er mwyn ategu'r ffigurau yn y cyfrifon mewn modd amserol. Yn 2015-16 bu trafodaeth gynnar â staff Cyllid ar fethodolegau a thriniaethau arfaethedig o ran meysydd cyfrif goddrychol yn hynod ddefnyddiol. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad archwilio olaf, gwelwyd anawsterau tebyg i'r flwyddyn flaenorol, yn rhannol o fewn swyddogaeth gyllid y Bwrdd Iechyd, ac o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod sawl aelod o staff cyllid y Bwrdd Iechyd, a oedd yn rhan annatod o brosesau archwilio a chyfrifon y blynyddoedd blaenorol, wedi gadael y Bwrdd Iechyd cyn yr ymweliad archwilio olaf. Er i'r rheolwyr ymdrechu i ôl-lenwi'r staff hyn, collwyd peth o'r wybodaeth fanwl, gan arwain at baratoi papurau gwaith ar seiliau gwahanol i'r flwyddyn flaenorol a chymryd mwy o amser i ateb ymholiadau archwilio. Hefyd, profodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru nifer o newidiadau o ran staff a lleoliad yn ystod 2015-16.

29 Mae'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon yn gynyddol heriol a hoffem ganmol tîm Cyllid y Bwrdd Iechyd am amseriad ac ansawdd ei waith. Mae'r cydberthnasau gwaith adeiladol â'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r tîm cyllid cyfan wedi parhau unwaith eto eleni, a hoffem ddiolch iddynt am hynny. Rydym yn gweithio gyda'r rheolwyr i wneud rhagor o welliannau i'r prosesau archwilio a chyfrifon ar gyfer 2016-17.

30 Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 1 Mehefin 2016. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Dibrisiant asedau breintiedig. | Asedau breintiedig yw'r asedau hynny a brynwyd ond nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau eu defnyddio eto. Dim ond ar ôl dechrau defnyddio ased y dylid codi am ddibrisiant. Codwyd tâl yn anghywir am ddibrisiant gwerth £222,000 yn 2014-15 a 2015-16 yn erbyn cost y sganiwr Tomograffi Cyfrifiadurol (CT), sef £768,000, a gadwyd yn storfa'r tollau yn Heathrow ac nad oedd yn cael ei ddefnyddio eto. Fodd bynnag, golygai ffrydiau ariannu gan Lywodraeth Cymru y byddai unrhyw newid yn y dibrisiant yn arwain at addasiad cyfartal a chroes i gyllid y Bwrdd Iechyd. Ni wnaed unrhyw ddiwygiad yng nghyfrifon 2015-16, er y bydd y rheolwyr yn addasu cyfrifon 2016-17. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Cydnabod ychwanegiadau asedau sefydlog yn y cyfnod cywir. | Cafodd gwerth £26,000 o gyfarpar TG ei gynnwys yn anghywir yng nghyfrifon 2015-16 er i'r cyfarpar gael ei dderbyn ar ôl diwedd y flwyddyn ym mis Ebrill 2016. Felly, dylai'r cyfarpar fod wedi cael ei gydnabod yng nghyfrifon 2016-17. |
| Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus – Mesur Cydymffurfiaeth | Mae'r datganiadau ariannol yn nodi perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn 'cod talu prydlon' y Polisi hwn – mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed o 95% ar gyfer nifer y taliadau i gredydwyr nad ydynt yn rhai'r GIG a wneir o fewn 30 diwrnod i dderbyn nwyddau.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi perfformiad o 91.9% yn erbyn y targed hwn ar gyfer 2015-16.<br>Nid yw system Exeter, a ddefnyddir gan bob Bwrdd Iechyd i brosesu taliadau gofal sylfaenol, yn darparu unrhyw wybodaeth ystadegol am nifer y diwrnodau a gymerwyd i wneud taliadau. O 2015-16 ymlaen, penderfynodd Llywodraeth Cymru hepgor y taliadau hyn o'r cyfrifiad, lle o'r blaen roedd byrddau iechyd wedi tybio bod pob anfoneb yn cael ei thalu o fewn y cyfnod o 30 diwrnod. Mae hyn yn debygol o leihau perfformiad cyffredinol o gymharu â blynyddoedd blaenorol.<br>Hefyd, yn ôl y canllawiau, rhaid i'r dyddiad dechrau ar gyfer cyfrifo'r cyfnod talu o 30 diwrnod gyfateb i ddyddiad derbyn y nwyddau/gwasanaethau neu'r anfoneb, p'un bynnag sydd hwyraf. Yn ystod 2015-16, nodwyd mai'r dyddiad a ddefnyddiwyd oedd y dyddiad y cafodd set o anfonebau eu mewnbynnu i system Oracle. O ganlyniad i hynny, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi rhoi hyfforddiant ychwanegol i'w staff ac mae rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan sylweddol mewn adolygiad cenedlaethol o brosesau prynu a thalu cyfrifon y GIG ledled Cymru. |

31 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal adolygiad y Bwrdd Iechyd o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2016, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

32 Mae fy adolygiad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd elusennol y Bwrdd Iechyd wedi'i gwblhau ac ni chododd unrhyw faterion yn sgil yr adolygiad hwnnw yr oedd angen tynnu sylw'r Ymddiriedolwyr atynt.

### Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd

33 Adolygais reolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

34 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o fantoli'r gyllideb;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni argymhellion yr asesiad strwythuredig a wnaed y llynedd;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar y contract meddygon ymgynghorol, ac adolygu trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain hynt argymhellion archwilio allanol.

35 Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddangos rheolaeth gyllidebol dda ac yn parhau i fonitro cynlluniau arbedion yn effeithiol. Mae ganddo hanes da o fantoli'r gyllideb ac mae wedi gwella'r broses o gynnwys rhanddeiliad wrth gyflawni gwaith cynllunio ariannol, ond erys heriau sylweddol o ran mantoli'r gyllideb yn 2016-17

36 Mae fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rwyf wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull cynllunio ariannol, rheolaethau a stiwardiaeth ariannol, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau allweddol isod.

### Mae dull cynllunio ariannol y Bwrdd Iechyd yn parhau i aeddfedu gyda mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid nag mewn blynyddoedd blaenorol a threfniadau cadarn o ran pennu'r gyllideb

37 Mae dull cynllunio ariannol y Bwrdd Iechyd yn parhau i aeddfedu gyda mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid nag mewn blynyddoedd blaenorol a threfniadau cadarn o ran pennu'r gyllideb. Erys dull cynllunio ariannol cadarn a chynllunio tymor canolig integredig yn fwy cyffredinol, gyda Chynllun Ymgysylltu yn cael ei gyflwyno yn 2016-17 i wella'r broses o gynnwys rhanddeiliaid wrth bennu'r gyllideb. Ceir dull mwy o'r bôn i'r brig o nodi arbedion gan gyfarwyddiaethau yn 2016-17, ynghyd â themâu trawsbynciol ar gyfer gwneud arbedion, a ddylai gynnig mwy o atebolrwydd a realaeth i'r broses.

### Mae rheolaethau ariannol yn ystod y flwyddyn yn gweithredu'n briodol ac yn sicrhau stiwardiaeth dda er bod angen i rai agweddau gael eu dogfennu a'u cymhwyso'n fwy cyson

38 Mae rheolaethau ariannol yn ystod y flwyddyn yn gweithredu'n briodol ac yn sicrhau stiwardiaeth dda er bod angen i rai agweddau gael eu dogfennu a'u cymhwyso'n fwy cyson. Amlinellir rolau a chyfrifoldebau clir yn y Fframwaith Cynllunio Lleol, er y gellid eu dogfennu'n fwy cyson i'r staff sy'n arwain y themâu trawsbynciol ar gyfer cynlluniau arbedion. Nid yw'r cylch gorchwyl ar gyfer Cyfarfodydd Busnes Clinigol ar waith yn gyson eto. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn chwarae rôl weithgar, fel rhan o'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd cyffredinol, wrth fonitro rheolaeth ariannol gan wneud defnydd priodol o waith y timau archwilio mewnol ac allanol a'r Gwasanaeth Gwrthdwyll Lleol.

### Mae trefniadau adrodd ariannol yn rhoi gwybodaeth briodol wrth wneud penderfyniadau Bwrdd ac yn cefnogi camau cywirol lle bo angen

39 Mae trefniadau adrodd ariannol yn rhoi gwybodaeth briodol wrth wneud penderfyniadau Bwrdd ac yn cefnogi camau cywirol lle bo angen. Mae'r Bwrdd yn ymateb yn agored ac yn dryloyw i risgiau a materion a nodir a cheir adroddiadau cyson, dibynadwy ac amserol ar y ddwy lefel weithredol ac i'r Bwrdd. Ceir proses fonitro weithredol drwy wahanol grwpiau gweithredol a lefel Bwrdd, gan gynnwys Cyfarfodydd Busnes Clinigol misol â chyfarwyddiaethau, a Phwyllgor Gweithlu a Pherfformiad Ariannol y Bwrdd. Fodd bynnag, mae lle i egluro negeseuon allweddol yn well a gwneud cymariaethau pellach â byrddau iechyd lleol eraill mewn adroddiadau i'r Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol. Ar y cyfan, mae adroddiadau ariannol yn helpu i feithrin dealltwriaeth sy'n llywio'r broses o ddylunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac er ei fod yn disgwyl mantoli'r gyllideb yn 2015-17, mae heriau o ran cyflawni arbedion arfaethedig yn peri risg na wneir hyn.

40 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac mae ganddo hanes da iawn o gyflawni ei dargedau ariannol a mantoli'r gyllideb yn unol â'i gyfrifoldebau statudol a'i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig. Roedd cyfran uchel o'i arbedion yn 2015-16 yn gylchol eu natur ac mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl mantoli'r gyllideb unwaith eto yn 2016-17. Mae cynlluniau arbedion ar ei hôl hi ar hyn o bryd sy'n peri risg o ran mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Er y lleddfir y risg hon i raddau am fod lefelau gwariant buddsoddi arfaethedig hefyd ar ei hôl hi i raddau tebyg, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd reoli'r cydeffaith ar wasanaethau yn effeithiol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu a chynllunio strategol yn ystod 2016, ond mae lle i wella'r broses o gyflwyno adroddiadau Cynllun Tymor Canolig Integredig a rheoli prosiectau ac mae angen mynd i'r afael â threfniadau rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyn gynted â phosibl

41 Mae fy ngwaith llywodraethu a sicrwydd wedi asesu trefniadau cynllunio ac adrodd strategol y Bwrdd Iechyd a'r dull o ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd bwrdd. Rwyf hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni argymhellion asesiad strwythuredig blaenorol a materion ar gyfer gwella.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu ei ddull cynllunio strategol gan roi trefniadau effeithiol ar waith ond mae lle i wella'r broses o gyflwyno adroddiadau Cynllun Tymor Canolig Integredig ymhellach ac ehangu trefniadau rheoli prosiectau a rhaglenni

42 Bu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a luniwyd o fewn yr amserlen ofynnol yn destun craffu gan y bwrdd a chafodd ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet. Mae model cynllunio strategol clir a digon o allu ac adnoddau cynllunio o fewn y Bwrdd Iechyd. Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad sydd â chyfrifoldeb gweithredol am ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a cheir cydweithio agos â chyfarwyddwyr gweithredol cyllid a'r gweithlu er mwyn sicrhau dull integredig o fewn y sefydliad cyfan.

43 Mae trefniadau sicrwydd effeithiol a datblygol ar waith i fonitro a nodi cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan gynnwys adroddiadau chwarterol i'r bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd am wella adroddiadau chwarterol yn unol â nifer o argymhellion a wnaed gennym y llynedd, ac rydym yn gweld newidiadau cadarnhaol yn hyn o beth.

44 Caiff themâu trawsbynciol eu hategu gan drefniadau rheoli prosiectau a rhaglenni, ond mae lle i gyflwyno dulliau mwy systematig o reoli prosiectau o fewn y sefydliad cyfan. Fel cyrff iechyd eraill yng Nghymru, nid oes gan y Bwrdd Iechyd un fethodoleg rheoli rhaglenni. Y llynedd gwnaethom nifer o argymhellion ynghylch trefniadau rhaglenni a phrosiectau ac er i beth cynnydd gael ei wneud, mae mwy o waith i'w wneud o hyd.

## Mae trefniadau sicrwydd bwrdd yn parhau i aeddfedu ac mae pwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol yn gyffredinol, er bod angen mwy o amser i ymgorffori newidiadau diweddar i rai pwyllgorau.

45 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfûm y canlynol:

- mae'r trefniadau ar gyfer datblygu ac ymgorffori fframwaith sicrwydd y bwrdd yn parhau i aeddfedu, ac er bod rhai bylchau o ran sicrwydd o hyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r rhain ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw; ac
- mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol, gyda gwelliannau yn cael eu gwneud i dryloywder adroddiadau cyhoeddus ond bydd angen i newidiadau diweddar i'r pwyllgor ansawdd, diogelwch a risg gael amser i ddod yn gwbl effeithiol.

46 Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei fframwaith sicrwydd ym mis Ebrill 2015. Cafodd ei adolygu yn 2016 yn unol â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a fireiniwyd. Y Bwrdd sy'n berchen ar y fframwaith a chaiff ei ystyried yn ffurfiol bob blwyddyn. Cydnabyddir bod y fframwaith yn datblygu'n barhaus ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud hyn. Er enghraifft, mae'r pwyllgor archwilio wedi awgrymu sesiwn datblygu bwrdd ar y parodrwydd i fentro, ond ni weithredwyd ar hyn eto.

47 Mae'r fframwaith yn seiliedig ar y pum amcan craidd a chaiff pob risg a nodir ei neilltuo i bwyllgor arweiniol. Mae'r Bwrdd wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am fonitro sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio. Nawr, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio ystyried sut mae'n mynd ati i adolygu a monitro sicrwydd o fewn y fframwaith yn rheolaidd fel rhan o'i raglen waith flynyddol.

48 Yn gyffredinol, y darlun sy'n dod i'r amlwg o gymharu fframweithiau sicrwydd bwrdd yw bod y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n dda â chyrff iechyd eraill mewn nifer o feysydd gan gynnwys priodoleddau mapio sicrwydd bwrdd a chynnwys aelodau yn y gwaith o ddatblygu'r fframwaith sicrwydd.

49 Nododd ein harsylwadau o'r asesiad strwythuredig eleni fod systemau craffu a herio yn gwella ymhlith Aelodau Annibynnol gydag ymatebion da gan swyddogion gweithredol yn gyffredinol. Credir yn gryf mewn diwylliant o dryloywder o fewn y Bwrdd. Mae systemau gweinyddol ac ymddygiad y Bwrdd yn effeithiol gyda phrosesau ar waith i adolygu effeithiolrwydd bwrdd a phwyllgor. Mae cyfarfodydd dibapur yn llwyddiannus. Fodd bynnag, erys rhai heriau wrth fodloni terfynau amser y Bwrdd Iechyd o ran cyflwyno papurau pwyllgor un wythnos galendr cyn y cyfarfod. Y llynedd gwnaethom nodi'r risgiau a oedd ynghlwm wrth lai o amser a'r effaith bosibl ar allu pwyllgor i ystyried adroddiadau, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar y maes hwn.

50 Un datblygiad sylweddol eleni fu darparu'r papurau ar gyfer ei holl bwyllgorau i'r cyhoedd eu gweld a hynny drwy'r wefan. Mae hyn yn beth cadarnhaol ac yn dangos gwell tryloywder.

51 Cydnabyddir, o fewn y Bwrdd Iechyd, fod angen atgyfnerthu effeithiolrwydd gweithredol rhai o'i bwyllgorau, a chydnabyddir bod rhai pwyllgorau yn dal i ddatblygu, er enghraifft y pwyllgor gofal sylfaenol. Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i adolygu ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys yr adolygiad parhaus o'i bwyllgor ansawdd a diogelwch. Penderfynwyd cyfuno'r pwyllgor ansawdd a diogelwch a risg gorfforaethol gyda'r bwriad o leihau dyblygu a gwella effeithiolrwydd.
Mae'n rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y pwyllgor hwn a byddwn yn adolygu ei drefniadau llywodraethu a gweithredu fel rhan o'n gwaith archwilio'r flwyddyn nesaf.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni argymhellion asesiad strwythuredig 2015.

52 Mae ein gwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2016 wedi adolygu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth gyflawni'r 12 o argymhellion a wnaed fel rhan o asesiad strwythuredig y llynedd. Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni argymhellion asesiad strwythuredig 2015, er ei fod yn cydnabod bod gwaith ar rai meysydd yn dal i fynd rhagddo a bod angen iddo gael ei gwblhau.

53 O blith y 12 o argymhellion mae saith wedi'u cwblhau ac mae'r gweddill yn mynd rhagddynt. Fodd bynnag, mae tri argymhelliad wedi mynd heibio i'w dyddiad cwblhau gwreiddiol. Nodwyd bod y wybodaeth olrhain, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2016, yn gyson â'n hasesiad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'n 12 o argymhellion o'r asesiad strwythuredig.

## Mae fy ngwaith archwilio arall ar berfformiad wedi canfod, er bod y bwrdd iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni'r argymhellion o'r archwiliad blaenorol, fod angen iddo wneud hyn yn gyflymach

### Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gymryd camau i atgyfnerthu prosesau cynllunio swyddi ymgynghorol, fel rhan o'i ddull ehangach o gynllunio'r gweithlu meddygol, nid yw wedi gweithredu fy holl argymhellion cenedlaethol a lleol blaenorol eto.

54 Ym mis Mehefin 2016 gwneuthum gwblhau fy adolygiad archwilio lleol o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth gyflawni argymhellion archwilio blaenorol a wnaed gennyf o ran gwireddu manteision contract meddygon ymgynghorol a chynllunio swydd. Y prif gasgliadau o'r gwaith hwnnw oedd:

- mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi yn y broses cynllunio swydd, er bod angen gwneud gwaith ychwanegol ar ganlyniadau disgwyliedig a chynnwys cyflogwyr eraill;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran sicrhau'r manteision bwriadedig o'r contract gyda chyfleoedd pellach i ddatblygu gwaith cynllunio swyddi tîm a chontractau hyblyg; ac
- er bod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau dau argymhelliad, mae gwaith pellach i'w wneud o ran 16 o'r 18 o argymhellion a nodwyd yn flaenorol yn fy adroddiadau cenedlaethol a lleol.

### Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gyflawni argymhellion yn gyflymach

55 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i gyflawni argymhellion asesiad strwythuredig 2015, gwneuthum hefyd ystyried effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd o ran ymateb i argymhellion fy archwiliad. Nodais fod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiad olrhain argymhellion rheolaidd sy'n nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein holl argymhellion. Caiff adroddiad olrhain cryno ei lunio hefyd sy'n dangos statws cyffredinol argymhellion. Caiff adroddiadau olrhain eu hystyried ymhob Pwyllgor Archwilio a chaiff y graddau y gwneir cynnydd eu herio.

56 Ym mis Hydref 2016, mae'r adroddiad olrhain archwilio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn nodi, o'r 126 o argymhellion a wnaed na chyflawnwyd 27 ohonynt h.y. roeddent wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiad cwblhau gwreiddiol. Roedd naw yn ymwneud â'n hadroddiad rheoli gwybodaeth a thechnoleg. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gyflawni'r argymhellion hyn yn gyflymach gan eu bod yn ymwneud â swyddogaethau busnes allweddol ac mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried bod hyn yn risg.

57 Hefyd nodais, er bod adroddiadau archwilio mewnol ac allanol yn cael y proffil angenrheidiol ym mhwyllgorau'r bwrdd, mae'r darlun yn llai cyson o ran yr adroddiadau a gaiff eu llunio gan Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn cael y proffil a'r sylw angenrheidiol o fewn trefniadau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad, er y nodir bod rhai adroddiadau diweddar gan yr Uned Gyflawni wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2016 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Llythyr Rheoli 2015-16 | Rhagfyr 2016 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad Dilynol o Gontract Meddygon Ymgynghorol | Mehefin 2016 |
| Asesiad Strwythuredig 2016 | Tachwedd 2016 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2016 | Mawrth 2016 |

Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad yn dal i fynd rhagddo

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau tybiedig |
|---|---|
| Adolygiad o Wasanaethau Radioleg | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o Wasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau | Ebrill 2017 |
| Adolygiad o Gynllunio Rhyddhau Cleifion | Gorffennaf 2017 |
| Y cynnydd a wnaed wrth gyflawni argymhellion a wnaed yn yr adolygiad o Apwyntiadau Dilynol i Gleifion Allanol[2] | Mai 2017 |

[2] Mae'r adolygiad hwn yn lle'r adolygiad a ddisgwylid o Ystadau

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2016 ffi archwilio arfaethedig o £412,993 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio sylweddol

Arddangosyn 4: risgiau archwilio sylweddol

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Gwaith wedi'i gwblhau a dim materion yn codi. |
| Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw ac, fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu a phrofi ffrydiau ariannu ac incwm a gafwyd gan y Bwrdd Iechyd; ac<br>ystyried a yw'r holl ffrydiau ariannu ac incwm wedi'u nodi. | Gwaith wedi'i gwblhau a dim materion yn codi. |
| Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol na'i ddyraniad adnoddau cyfalaf blynyddol. Dangosodd y sefyllfa ym mis 10 fod diffyg o £1.1 miliwn hyd hynny yn ystod y flwyddyn er bod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y caiff y gyllideb ei mantoli ar ddiwedd y flwyddyn. Fel yn 2014-15, efallai y byddaf yn dewis gosod adroddiad sylweddol esboniadol ar y datganiadau ariannol.<br>Gallai'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd gynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn unochrog mewn ymdrech i fodloni'r terfyn adnoddau. | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai fod yn unochrog. | Ni nododd ein gwaith archwilio ar amcangyfrifon a meysydd goddrychol eraill fel darpariaethau unrhyw addasiadau perthnasol i ganlyniad y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn llwyddo i roi cyfrif cywir am hawliadau cyfreithiol parhaus rhwng darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r sefyllfa a'r cyngor cyfreithiol mwyaf diweddar ac yn trafod y driniaeth gyfrifyddu a'r modd y cyflwynir y mater hwn yn y datganiadau ariannol. | Nodwyd rhai achosion yn Adroddiad Cwantwm â statws '(5) Achos yn Derfynol' na roddwyd cyfrif amdanynt yn gywir, er nad oedd yr effaith net yn berthnasol. Rydym wedi nodi argymhelliad arall yn ein Llythyr Rheoli ar gyfer 2015-16. |
| Mae'r amserlen ar gyfer llunio ac ardystio'r cyfrifon blynyddol yn dal i fod yn heriol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer paratoi'r cyfrifon a sicrhau y darperir papurau gwaith i'w harchwilio'n amserol. Bydd hyn yn cyflwyno heriau penodol i'r Bwrdd Iechyd eleni, o ystyried bod rhai aelodau unigol allweddol o staff wedi gadael. | Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio gyda'r rheolwyr i leihau effaith y newidiadau hyn ar baratoi'r cyfrifon a phrosesau archwilio. | Cafodd yr archwiliad ei gwblhau a chafodd y datganiadau ariannol eu llofnodi'n briodol o fewn y terfyn amser gofynnol. |
| Yn 2014-15 cyflwynwyd sylwadau i'r rheolwyr gennym ar sawl maes yn ystod ein gwaith archwilio gan gynnwys:<br>• rhoi cyfrif am waredu Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar;<br>• ansawdd y data a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd Iechyd i gyfrifo'r darpariaethau Gofal Iechyd Parhaus; a<br>nifer a gwerth gordaliadau i staff sydd wedi gadael eu swydd ond sy'n parhau i gael eu talu. | Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr argymhellion a wnaed yn ein Memorandwm Cyfrifon Ariannol a'r addasiadau yn deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol yn 2014-15 fel rhan o waith archwilio 2015-16. | Ni chododd unrhyw faterion sylweddol o'n harchwiliad o'r meysydd hyn yn 2015-16. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru